



Canllawiau statudol

Mae'n rhaid i gydgylluniau ardal ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig sy'n cael eu cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd a nodir yn yr asesiad o'r boblogaeth. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i gydgylluniau ardal gynnwys camau gweithredu partneriaid yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth integreiddio ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae'r Canllawiau Statudol yn cyfeirio'n benodol at ddatblygu camau gweithredu penodol yn y meysydd canlynol:

- ◆ Atal
- ◆ Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- ◆ Y Gymraeg
- ◆ Dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector

Disgwylir i chi ddatblygu camau gweithredu yn unol â'r pwyntiau bwled uchod lle bo modd. Yn unol ag adran 15 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant*, bydd angen i chi edrych yn benodol ar gamau **ataliol** i ddangos sut rydych yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd hon. Hefyd, dylech ddisgrifio unrhyw gamau sy'n cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r asesiad o'r boblogaeth yn ymwneud â gwasanaethau Cymraeg. Mae'r templed yn cynnwys adran lle gallwch ddisgrifio sut mae camau gweithredu yn bodloni gofynion y Ddeddf (Penodau themâu craidd: 2.6)

Datblygu camau gweithredu

Byddwch chi'n datblygu camau gweithredu penodol mewn ymateb i'ch blaenoriaethau. Mae templed y cynllun yn cynnwys tabl i gofnodi camau gweithredu yn ogystal â cham gweithredu enghreifftiol. Fel gofyniad sylfaenol, disgwylir i chi gynnwys crynodeb o'r gwasanaethau neu'r camau gweithredu eraill y byddwch chi'n ymgymryd â nhw. Fel sy'n wir am y blaenoriaethau rhanbarthol, mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth, a chael eu llywio ganddynt.

Cofiwch: Mae angen ystyried y dewisiadau ar gyfer camau ataliol a chamau sy'n datblygu ac yn llywio darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn eich ardal.

Hefyd, mae'n bosibl y bydd atebion lleol penodol ar gael ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol, felly mae'n bwysig nodi gwahaniaethau mewn camau gweithredu lleol yn glir. Gallwch gynnwys hyn yn nhabl 2.10 (*sut y byddwn yn darparu*) yn nhempled y cynllun.

Mae'n rhaid i chi ofyn rhai cwestiynau allweddol i'ch hun wrth bennu camau gweithredu ar gyfer y blaenoriaethau rhanbarthol.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ A ydw i wedi adolygu'r wybodaeth a gasglwyd am ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth cyn cytuno ar y cam gweithredu?
- ◆ A oes angen i mi ymateb drwy ddarparu gwasanaeth newydd, neu a oes cyfle i mi symleiddio neu alinio fy narpariaeth bresennol?
- ◆ A oes angen i mi ymateb drwy ddatblygu gwasanaeth, neu a oes modd mynd i'r afael â'r mater mewn ffordd arall, e.e. datblygu fframwaith neu strategaeth ranbarthol/ymchwilio ymhellach er mwyn deall bwch mewn darpariaeth?
- ◆ A yw fy nghamau gweithredu yn rhai CAMPUS ac a ydynt yn adlewyrchu'r canlyniad dymunol?
- ◆ A yw'r asesiad o'r boblogaeth wedi dangos bod angen camau gweithredu gwahanol ar lefel leol er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth ranbarthol?
- ◆ A ydw i wedi datblygu unrhyw gamau gweithredu ataliol?



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government